Wales Centre for Public Policy
Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

Deall annhegwch mewn addysg drydyddol

Myfyrdodau arbenigol ar yr heriau a sut i'w goresgyn

Luke Sibieta, Joshua Miles, Vikki Boliver ac Ellen Hazelkorn

www.wcpp.org.uk

Hydref 2024

Cyflwyniad

Roedd Llywodraeth Cymru wedi comisiynu Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru i ddarparu tystiolaeth i hysbysu Medr, y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil, wrth iddynt gyflawni ei dyletswydd strategol i hyrwyddo cyfle cyfartal mewn addysg drydyddol yng Nghymru. I wneud hyn, mae YDG Cymru wedi cynnal dadansoddiad data ac mae Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru wedi llunio adolygiad o dystiolaeth.

Fel y cyflwynwyd yn y ddogfen hon, gofynnwyd i arbenigwyr blaenllaw fyfyrio ar yr ymchwil hon a'u harbenigedd eu hunain i archwilio: Pa gamau, os o gwbl, y byddai orau i'w cymryd i annog gwahanol batrymau mynediad, cyfranogiad, dilyniant, cyflawniad a chanlyniadau? Sut gallai'r gweithgareddau hyn hyrwyddo dyletswydd, gallu neu ddyhead cyffredinol i ddarparu cyfleoedd teg i ddisgyblion, myfyrwyr a phrentisiaid mewn addysg bellach, addysg uwch, darparwyr prentisiaethau, chweched dosbarth a chanolfannau dysgu i oedolion?

Rydym wedi cyhoeddi cyfres o allbynnau i ateb y cwestiynau hyn, gan gynnwys dadansoddiad data (Huxley a Davies, 2024); adolygiad tystiolaeth sy'n ymdrin â dulliau polisi presennol (Nesom et al., 2024); briff polisi sy'n cyflwyno prif ganfyddiadau'r dadansoddiad data, wedi'i lywio gan ein hallbynnau ychwanegol a gwaith perthnasol arall (Robson et al., 2024) a'r gyfres hon o syniadau sy'n argymell ymyriadau polisi a dulliau gweithredu (Boliver, 2024; Hazelkorn, 2024; Miles, 2024; Sibieta, 2024).

Gwybodaeth am y syniadau hyn

Mae'r syniadau a gyflwynir yn y ddogfen hon yn ymateb i gwestiwn ymchwil 3 y Ganolfan, sef Pa gamau, os o gwbl, y byddai orau i'w cymryd i annog gwahanol batrymau mynediad, cyfranogiad, dilyniant, cyflawniad a chanlyniadau? Sut gallai'r gweithgareddau hyn hyrwyddo dyletswydd, gallu neu ddyhead cyffredinol i ddarparu cyfleoedd teg i ddisgyblion, myfyrwyr a phrentisiaid mewn Addysg Bellach, Addysg Uwch, darparwyr prentisiaethau, chweched dosbarth, a chanolfannau dysgu i oedolion?

Gofynnwyd i awduron fyfyrio ar y dadansoddiad data a gynhaliwyd gan YDG Cymru; canfyddiadau adolygiad tystiolaeth Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru; a'u harbenigedd eu hunain i ateb y cwestiwn hwn.

Cynnwys

Cyflwyniad 2

Gwybodaeth am y syniadau hyn 3

Rhagor o ddata a phwyslais cynharach yn allweddol i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau mewn addysg a hyfforddiant ôl-16 oed (Luke Sibieta) 4

Tegwch mewn Addysg Drydyddol yng Nghymru: persbectif dysgu oedolion (Joshua Miles) 9

Derbyniadau cyd-destunol: ffordd o ehangu cyfranogiad mewn addysg drydyddol yng Nghymru (Yr Athro Vikki Boliver) 14

Ehangu Cyfranogiad a Gweddnewid Bywydau: Beth sy'n gweithio? (Yr Athro Ellen Hazelkorn) 18

Rhagor o ddata a phwyslais cynharach yn allweddol i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau mewn addysg a hyfforddiant ôl-16 oed

Luke Sibieta

Mae Luke Sibieta yn Gymrawd Ymchwil yn y Sefydliad Astudiaethau Cyllid sydd ynghlwm wrth y sector Addysg, Cyflogaeth a Gwerthuso. Mae hefyd yn Gymrawd Ymchwil yn y Sefydliad Polisi Addysg. Mae ei ddiddordebau ymchwil cyffredinol yn cynnwys polisi addysg, yr economi wleidyddol a thlodi ac anghydraddoldeb. Yn gynharach eleni, ysgrifennodd adroddiad yr IFS: Major Challenges for Education in Wales, a oedd yn cwmpasu meysydd gan gynnwys canlyniadau addysgol isel a lefelau uchel o anghydraddoldeb.

Mae creu Medr, y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil, yn cynrychioli newid sylfaenol yn nhrefniadaeth addysg a hyfforddiant ôl-16 yng Nghymru.

Mae'r blog hwn yn trafod rhai o'r heriau mwyaf sy'n wynebu llunwyr polisi addysg a hyfforddiant ôl-16 oed yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys lefelau cymharol isel y cyfranogiad mewn addysg uwch, lefelau cyfranogi is mewn addysg academaidd yn achos bechgyn ac anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol mawr. Mae hefyd yn ystyried sut y gallai polisi ymateb yn y ffyrdd gorau. I wneud hynny, mae'n cyfeirio at ystod o dystiolaeth newydd ar addysg a hyfforddiant ôl-16 oed yn y DU. Mae hyn yn cynnwys tystiolaeth eang ac adolygiadau polisi a gynhyrchwyd gan Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru (CPCC), dadansoddiad arloesol o addysg a hyfforddiant ôl-16 oed a gynhyrchwyd gan CPCC/ADR Cymru a gwaith ar y cyd rhyngof i a chydweithwyr EPI/SKOPE ar addysg a hyfforddiant ôl-16 oed ledled y DU.

Lefelau cyfranogi isel mewn dosbarthiadau chwech ac addysg uwch yng Nghymru

Un o nodweddion diffiniol allweddol addysg ôl-16 oed yng Nghymru, o'i gymharu â gweddill y DU, yw'r gyfradd gyfranogi is mewn dosbarthiadau chwech mewn ysgolion ac addysg uwch. Yn ein hadroddiad EPI/SKOPE diweddar, rydym yn dangos mai dim ond 35% o rai 16-17 oed yng Nghymru sy'n mynychu dosbarthiadau chwech ysgolion. Mae hyn yn cymharu â 45% yn Lloegr, dros 60% yn Gogledd Iwerddon a 63% yn yr Alban (hyd at 79% os ydych yn cyfrif cofrestriadau deuol yn yr Alban). Mae cyfran llawer uwch o bobl ifanc mewn colegau yng Nghymru (dros 50%).

> **Gall mwy o ddisgyblion yng Nghymru sy'n mynychu coleg ac yn cael addysg gan goleg galwedigaethol fod yn gryfder i Gymru, ond mae rhinweddau'r dull Cymreig yn dibynnu ar ganlyniadau gwahanol lwybrau addysg i fyfyrwyr a phobl ifanc.**

Mae'n debygol iawn bod y gwahaniaethau hyn yn y math o ddarpariaeth yn adlewyrchu argaeledd cymharol dosbarthiadau chwech mewn ysgolion a cholegau ledled Cymru. Mewn ardaloedd gwledig yn benodol, nid yw disgyblion yn debygol o gael llawer iawn o ddewis rhwng dosbarthiadau chwech mewn ysgolion a cholegau, ac mae'n bosibl y byddant yn dal i deithio cryn bellter i fynychu lleoliad ôl-16 oed. Mae hyn yn bwysig gan y bydd yn debygol o effeithio ar y math o gymwysterau addysgol y bydd pobl ifanc yn eu cael. Mae colegau'n fwy tebygol o gynnig cyrsiau galwedigaethol, gyda dosbarthiadau chwech mewn ysgolion yn fwy tebygol o gynnig cyrsiau academaidd, fel Lefelau A. Er enghraifft, mae'r rhan fwyaf o bobl ifanc mewn dosbarthiadau chwech ysgolion yn dilyn cyrsiau lefel A, gyda lefelau A yn cyfrif am ddim ond tua 28% o'r cyrsiau a ddilynir gan bobl ifanc mewn colegau yng Nghymru. Yn rhannol o ganlyniad i hyn, mae adroddiad CPCC/ADR Cymru yn dangos bod dros 50% o bobl ifanc yng Nghymru'n dilyn cyrsiau galwedigaethol, gyda 32% wedi cofrestru ar gyfer Lefelau A. Yn Lloegr, ar y llaw arall, roedd 47% o bobl ifanc yn astudio Lefel A yn 2022.

O gofio'r gwahaniaethau hyn, efallai nad yw'n syndod ein bod hefyd yn gweld lefelau cyfranogi is mewn addysg uwch yng Nghymru. Fel yr ydym yn ei ddangos yn ein hadroddiad EPI/SKOPE roedd tua 37-38% o rai 18 oed yn Lloegr yn cymryd rhan mewn addysg uwch yn 2023. Mae'r ffigurau ar gyfer yr Alban yn cael eu cyfrifo mewn ffordd ychydig yn wahanol, ond nid ydynt yn debygol o fod yn llawer is na'r rhai a welir yn Lloegr a Gogledd Iwerddon. Yng Nghymru, ar y llaw arall, dim ond tua 30% o rai 18 oed oedd mewn addysg uwch yn 2023. Mae llawer o resymau am y lefel is hon o gyfranogiad mewn addysg uwch, ond un o'r prif resymau yw'r pwyslais ar gyrsiau a cholegau galwedigaethol. Mae prifysgolion yn fwy tebygol o fod â gofynion mynediad sydd wedi'u seilio ar gymwysterau academaidd fel Lefelau A.

Hanfodol i ddeall y canlyniadau

Ni ddylai'r ffaith bod mwy o ddisgyblion yn mynd i golegau yng Nghymru ac yn dilyn cyrsiau galwedigaethol fod yn anfanteisiol. Yn wir, mi all cael mwy o ddisgyblion ar gyrsiau technegol o safon uchel lle maent yn dysgu sgiliau gwerthfawr fod yn gryfder. Mae rhinweddau'r dull Cymreig felly'n dibynnu ar ganlyniadau'r gwahanol lwybrau addysg i fyfyrwyr a phobl ifanc.

Er nad yw'r data cyfredol yn dangos inni ble mae dysgwyr ar lwybrau galwedigaethol yng Nghymru'n diweddu, rydym yn gweld canlyniadau i rai pobl ifanc yng Nghymru sy'n achos pryder. Rydym eisoes wedi gweld eu bod yn llai tebygol o fynychu addysg uwch. Maent hefyd yn fwy tebygol o beidio â bod mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (NEET). Roedd bron i 11% o rai 16-18 oed yng

Nghymru'n cael eu cyfrif fel NEET yn 2022-23, o'i gymharu ag 8% yn Lloegr, 9% yn yr Alban a 5% yng Ngogledd Iwerddon. Hefyd, mae'r canlyniadau economaidd i bobl ifanc yng Nghymru o gefndiroedd dosbarth gweithio'n eithaf gwael. Maent yn llai tebygol o fod â chymwysterau cymwysterau sy'n cyfateb i Lefel 3 neu Lefel A (56% yng Nghymru, o'i gymharu â 60-65% yng ngweddill y DU). Maent hefyd yn llai tebygol o fod mewn cyflogaeth (71% yng Nghymru, o'i gymharu â 74-78% yng ngweddill y DU).

I gael dealltwriaeth fwy manwl fyth o ddeilliannau a chanlyniadau llwybrau addysg yng Nghymru byddai angen mwy o ddata na sydd gennym ar hyn o bryd. Yn benodol, mae angen cysylltu data gweinyddol addysg â data enillion, cyflogaeth a budd-daliadau gan CThEF a DWP. Mae'r data hyn ar gael eisoes yn Lloegr ar ffurf y set ddata Deilliannau Hydredol Addysg ac maent eisoes yn datgelu gwybodaeth am yr hyn sy'n achosi anghydraddoldebau addysgol ac enillion. Dylid rhoi blaenoriaeth ar unwaith i sicrhau bod data o'r fath ar gael yng Nghymru hefyd.

Lefelau anghydraddoldebau sy'n achosi pryder

Mae pryderon tymor hir a chyson wedi'u mynegi ynghylch anghydraddoldebau addysg a hyfforddiant ôl-16 oed yng Nghymru a'r DU. Mae hyn yn amlwg yn yr holl ddadansoddiadau ar y pwnc. Mae adroddiad CPCC/ADR Cymru yn dangos mai dim ond 15% o'r plant sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim sydd mewn dosbarthiadau chwech mewn ysgolion yng Nghymru ac mai dim ond 9% sy'n gwneud Lefelau A. Hefyd, yn un o nodweddion mwyaf gwerthfawr yr adroddiad arloesol hwn, maent yn dangos bod yr anghydraddoldebau hyn yn ymestyn i wahaniaethau mawr yn ôl galwedigaeth y rhieni, addysg y rhieni ac elfennau eraill o amddifadedd. Er bod hyn yn amlwg yn achos pryder, bydd yn bwysig bod y Medr newydd yn parhau â'r dadansoddiad ac yn cyhoeddi'r gwahaniaethau economaidd-gymdeithasol o ran mynediad at wahanol fathau o addysg a hyfforddiant ôl-16 oed, a hynny'n rheolaidd. Bydd hyn yn annog dadl gyhoeddus, ac yn y diwedd yn arwain at newid polisi.

Rydym hefyd yn gweld gwahaniaethau economaidd-gymdeithasol amlwg o ran mynediad at addysg uwch. Mae ein hadroddiad EPI/SKOPE yn dangos mai dim ond tua 15-16% o bobl ifanc o ardaloedd o amddifadedd yng Nghymru a'r Alban sy'n mynychu addysg uwch. Yn Lloegr, mae'r ffigur hwn yn uwch, sef tua 20%, ond mae'n is yng Ngogledd Iwerddon, sef 13%. Yn amlwg, mae problemau ledled y DU o ran galluogi'r disgyblion sy'n profi'r amddifadedd mwyaf i fynd i addysg uwch.

Un o'r anghydraddoldebau amlwg eraill sydd i'w gweld mewn addysg a hyfforddiant ôl-16 oed yw

gwahaniaethau'n ôl rhywedd. Mae merched yn llawer mwy tebygol o fynychu dosbarthiadau chwech mewn ysgolion (37%) na bechgyn (30%) yng Nghymru. Mae bechgyn yn fwy tebygol na merched o ddilyn cyrsiau galwedigaethol. Yn ein hadroddiad EPI/SKOPE mi welwn hefyd fod bechgyn yng Nghymru'n llawer llai tebygol o fynd i addysg uwch (24%) na merched (36%), ac na welwyd y nesaf peth i ddim newid yng nghyfran y bechgyn sy'n mynd i addysg uwch yng Nghymru yn ystod y 15 mlynedd diwethaf.

Mae'r gwahaniaethau hyn mewn cyfranogiad mewn addysg i'w gweld yn glir ledled y DU, ac yn wir yn y rhan fwyaf o'r gwledydd â'r economïau mwyaf datblygedig. Fodd bynnag, gan mai Cymru sydd â'r gyfradd isaf ar y cyfan o ran cyfranogiad mewn addysg uwch, bechgyn Cymru sydd â'r lefelau cyfranogi isaf mewn addysg uwch ledled y DU. Unwaith eto, mae hyn bod yn sicr o fod yn gysylltiedig â'r ffaith bod mwy o fechgyn Cymreig yn dilyn cyrsiau galwedigaethol ar ôl 16 oed.

Mae'r ymatebion polisi gorau'n debygol o ganolbwyntio ar yr hyn sy'n dod cyn 16 oed

Yn eu hadolygiad trylwyr o'r dystiolaeth, mae CPCC yn dangos bod diffyg tystiolaeth o effeithiolrwydd llawer o'r cynlluniau sydd â'r nod o ehangu cyfranogiad mewn addysgu bellach ac uwch ymhlith pobl ifanc. Yn anffodus, nid yw hyn yn gymaint o syndod â hynny. Mae'r rhan fwyaf o'r dystiolaeth sydd ar gael yn dangos mai'r hyn sy'n digwydd cyn 16 oed sy'n dylanwadu fwyaf pan ddaw'n fater o wneud dewisiadau addysg yn ddiweddarach. Pan fyddwch

yn ystyried cyrhaeddiad blaenorol hyd at 16 oed, mae gwahaniaethai economaidd-gymdeithasol mewn cyfranogiad mewn addysg uwch a deilliannau'n lleihau neu'n diflannu'n gyfan gwbl. Mae hyn yn awgrymu mai'r ffordd orau o gynyddu cyfranogiad mewn addysg bellach ac uwch yw lleihau anghydraddoldebau yn y system ysgolion.

Yn anffodus, mae tystiolaeth glir o anghydraddoldebau uchel cyson yn y system ysgolion yng Nghymru, a lefelau sy'n uwch nag yng ngweddill y DU. Roedd y canlyniadau PISA diweddar yn rhoi darlun pryderus iawn o lefelau sgiliau darllen, mathemateg a gwyddoniaeth yng Nghymru, a hynny o'i gymharu â gweddill y DU a gweddill y byd. Mae dadansoddiad EPI o ganlyniadau TGAU wedi dangos bod disgyblion o gefndiroedd difreintiedig yng Nghymru tua 22-23 o fisoedd ar ôl o ran eu cynnydd addysgol o'i gymharu â'u cymheiriaid mwy breintiedig, sy'n cymharu â bwlch anfantais llai mewn canlyniadau TGAU o tua 18 mis yn Lloegr. Ni fu fawr ddim newid yn y bwlch anfantais hwn yng Nghymru yn ystod y degawd diwethaf.

Mae fy adroddiad IFS diweddar yn dadlau hefyd bod anghydraddoldebau

uwch yn y system ysgolion yng Nghymru'n annhebygol o adlewyrchu tlodi uwch yng Nghymru, cymysgedd ethnig gwahanol o ddisgyblion, tueddiadau ystadegol neu wahaniaethau mewn adnoddau. Yn hytrach, maent yn fwy tebygol o adlewyrchu gwahaniaethau mewn polisi a dulliau. Hefyd, nid oes fawr ddim tystiolaeth i awgrymu y gallai newidiadau i'r cwricwlwm, asesiadau neu'r flwyddyn ysgol sy'n digwydd neu sydd yn yr arfaeth wella pethau na lleihau anghydraddoldebau. Yn wir, mae risg wirioneddol y gallai newidiadau o'r fath waethygu anghydraddoldebau. Heb ymdrechion newydd, newid mewn cyfeiriad polisi ac adnoddau ychwanegol i fynd i'r afael â'r bwlch cyrhaeddiad, mewn ysgolion, mi fydd gwahaniaethau economaidd-gymdeithasol mewn addysg bellach ac uwch yn parhau'n fawr.

Mae'n debyg bod gwahaniaethau rhwng y rhywiau o ran cyfranogiad mewn addysg a mathau o gyrsiau'n anos fyth i'w newid. Er bod merched yn perfformio'n well na bechgyn yn y system ysgolion, nid yw'r gwahaniaeth hwn yn agos at fod yn ddigon i egluro pam mae merched gymaint yn fwy tebygol o ddilyn cyrsiau academaidd neu fynd ymlaen i addysg uwch. Mae gwahaniaethau o'r fath yn fwy tebygol o adlewyrchu normau ac agweddau sefydledig rhwng y rhywiau.

Casgliadau polisi

I gloi, mae'n ymddangos fod cyfoeth y hwn o dystiolaeth newydd yn amlygu nifer o ganfyddiadau a goblygiadau allweddol cyson. Yn gyntaf, dylai'r Medr newydd fod yn olrhain anghydraddoldebau mewn cyfranogiad a dewis o gyrsiau mewn ffordd reolaidd a systematig. Gallai dadansoddiad o'r fath wneud defnydd o ddata gweinyddol a chyfrifiad cysylltiol newydd, dylai gynnwys cymaint o agweddau ar anghydraddoldeb â phosibl, a dylai alluogi cymariaethau â gweddill y DU a gwledydd eraill. Bydd hyn yn llywio dadl gyhoeddus ac yn creu'r pwysau i leihau'r anghydraddoldebau hyn. Yn ail, mae angen inni ddatblygu dealltwriaeth well o ganlyniadau gwahanol gyfranogiad a dewis o gyrsiau, a'r anghydraddoldebau yn y dewisiadau hynny. Ni fydd hyn yn bosibl heb ddata gweinyddol addysg wedi'u cysylltu â data CThEM a DWP ar enillion, cyflogaeth a budd-daliadau. Mae data o'r fath ar gael eisoes yn Lloegr ar ffurf y set ddata Canlyniadau Addysg Hydredol. Dylai creu'r un data i Gymru fod yn flaenoriaeth ar unwaith. Yn drydydd, dylem fod yn realistig o ran effeithiau polisïau cyfranogi sy'n canolbwyntio ar rai dros 16 oed ac oedolion ifanc. Mi all polisïau o'r fath newid cyfranogiad pobl ifanc, eu pynciau a'u dewis o gyrsiau rhyw gymaint ar y cyrion. Fodd bynnag, yr hyn sy'n dod cyn eu bod yn 16 oed yw'r hyn sy'n cael fwyaf o effaith ar benderfyniadau addysg a hyfforddiant ôl-16 oed. Byddai mynd i'r afael ar y lefelau enfawr a digyfnewid o anghydraddoldeb mewn cyrhaeddiad addysg lefel ysgol yng Nghymru'n cael llawer mwy o effaith ar ddewisiadau addysg a hyfforddiant ôl-16 oed. Dylai Llywodraeth Cymru a'r Medr newydd weithio ag ysgolion i leihau anghydraddoldebau mewn cyrhaeddiad cyn-16 oed fel man cychwyn holl bwysig.

Tegwch mewn Addysg Drydyddol yng Nghymru: persbectif dysgu oedolion

Joshua Miles

Joshua Miles yw Cyfarwyddwr Cymru yn y Sefydliad Dysgu a Gwaith, sef sefydliad polisi ac ymchwil annibynnol sy'n canolbwyntio ar ddysgu gydol oes a gwaith gwell. Mae'n arwain gweithgarwch y Sefydliad yng Nghymru ac yn gweithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid allweddol eraill.

Rôl allweddol a chyfle i Medr

Gallai cyflwyno'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Medr) newid dulliau o hybu tegwch mewn addysg drydyddol yng Nghymru yn sylweddol. Mae nifer o resymau dros fod yn weddol optimistaidd ynglŷn â'r corff newydd a sut y gallai drawsnewid y dirwedd ôl-orfodol.

Mae gan y corff newydd nifer o ddyletswyddau sy'n rhoi ymdeimlad cryf o bwrpas iddo. Yn ogystal â'r ddyletswydd i hybu cyfle cyfartal, bydd y dyletswyddau hyn i gyd yn effeithio ar degwch mewn addysg drydyddol mewn rhyw ffordd, ac yn darparu sail resymegol gychwynnol gadarn ar gyfer polisïau cyllido a rheoleiddio Medr. Yr her i Medr fydd gweithredu'r dyletswyddau hyn, a throi adrannau pwysig o statud yn gamau gweithredu yn y byd go iawn.

Gallai bodolaeth corff sydd â goruchwyliaeth ariannol a rheoleiddiol dros bob math o ddarpariaeth (chweched dosbarth, addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, dysgu seiliedig ar waith ac addysg uwch) fod yn fuddiol ynddo'i hun. Yn ymarferol, gallai a dylai Medr fod yn edrych ar faterion fel tegwch yn thematig â dealltwriaeth gadarn o'r modd y gall newidiadau i un elfen o'r sector addysg a hyfforddiant ôl-orfodol (AHO) gael effaith gadarnhaol (neu negyddol) ar un arall a sut y gallai hyn gefnogi cynnydd dysgwyr.

I gymryd enghraifft o'r byd go iawn, yn 2021 enillodd Clare Palmer Wobr Sgiliau Hanfodol Bywyd yng Ngwobrau Ysbrydoli! Addysg Oedolion. Gadawodd Clare yr ysgol heb unrhyw gymwysterau a threuliodd y rhan fwyaf o'i gyrfa yn gweithio mewn salon trin gwallt ac fel cynorthwyydd gofal. Rhwng yr adeg pan oedd yn 14 oed a phan oedd yn 41 oed nid oedd wedi ymwneud â dysgu ffurfiol, ond aeth yn ôl i ddysgu yn y gymuned gan ymuno â dosbarthiadau mathemateg a Saesneg. Dyfalbarhaodd â'i sgiliau hanfodol ac ar ôl cwblhau Diploma Lefel 3 mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol, roedd gan Clare lawer mwy o hunan-gred. O ganlyniad, penderfynodd fynd â'i diddordeb mewn gofal gam ymhellach a gwneud cais am le mewn prifysgol er mwyn bod yn weithiwr cymdeithasol.

Dyma enghraifft o sut y gall dysgu gydol oes newid bywyd rhywun, drwy ddysgu oedolion a'r gymuned, addysg bellach ac addysg uwch. Ond mae stori Clare yn eithriad i'r rheol. Os yw Medr am gyflawni ei ddyletswydd i hybu cyfle cyfartal, mae angen i enghreifftiau fel un Clare ddod yn nodwedd fwy cyffredin yn ein tirwedd ôl-orfodol. Mae hynny'n golygu llwybrau cynnydd llawer cliriach ac ymdrechion allgymorth a hyrwyddo cryfach ar gyfer pobl ifanc 16-25 oed a dysgwyr sy'n oedolion.

Bydd yn rhaid i Medr reoli dau ddyhead polisi clir. Mae'r cyntaf o bosibl yn amlwg i bawb sydd wedi bod yn rhan o'r sgwrs AHO hyd yn hyn, ac yn cael ei adlewyrchu i raddau helaeth yn y dadansoddiad o'r data a ddarparwyd gan Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru/Ymchwil Data Gweinyddol Cymru: anfon y rhai sy'n gadael yr ysgol ar daith bywyd wedi'u harfogi â'r sgiliau, y cymwysterau, a'r hunangred y mae arnynt ei angen er mwyn cyflawni eu potensial. Mae tystiolaeth gynyddol o anghydraddoldeb mewn mynediad a chyfranogiad mewn AHO yng Nghymru ymhlith pobl ifanc sy'n gadael ysgol ar sail ffactorau economaidd-gymdeithasol amrywiol.

> **Er mwyn i Medr gyflawni ei ddyletswydd i hyrwyddo cyfle cyfartal, mae angen llwybrau dilyniant llawer cliriach ac ymdrechion allgymorth a hyrwyddo cryfach ar gyfer pobl ifanc 16-25 oed ac oedolion sy'n dysgu.**

Anghydraddoldeb mewn AHO yng Nghymru

Fel mae dadansoddiad Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru/Ymchwil Data Gweinyddol Cymru yn dangos, mae hwn yn faes sy'n llawn anghydraddoldeb ar hyn o bryd, â nodweddion dysgwyr yn amrywio'n fawr yn ôl y mathau o gymwysterau a'r mannau lle mae'r myfyriwr yn astudio ar eu cyfer. Er enghraifft, mae'r gyfran sy'n mynd i'r chweched dosbarth yn gostwng o 43% ar gyfer y rhai sydd heb unrhyw amddifadedd i 13% ar

gyfer y rhai sydd â 4 dimensiwn o amddifadedd. Mae'r gwrthwyneb yn wir am golegau Addysg Bellach lle gwelwn fwy o niferoedd yn cymryd rhan mewn AB po fwyaf o ddimensiynau o amddifadedd sydd gan ddysgwr.

Mae anghydraddoldeb mewn cyfranogiad hefyd rhwng Cymru a'r DU yn fwy cyffredinol. Mae adroddiad a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan y Sefydliad Polisi Addysg (EPI) yn cadarnhau'r heriau penodol sy'n wynebu Cymru. Canfu'r ymchwil hwn fod y gyfran o'r bobl ifanc 16-18 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant yng Nghymru yn cynyddu (o 6% yn 2021/22 i 11% yn 2022/23), fod cyfranogiad mewn addysg uwch yn 18 oed yn is nag yng ngwledydd eraill y DU (30% o'i gymharu â 49% yn yr Alban), bod bwlch mawr rhwng bechgyn a merched sy'n cyfranogi mewn Addysg Uwch, ac mai dynion ifanc o Gymru yw'r rhai lleiaf tebygol o fynd i brifysgol (24%).

Er bod hyn yn annerbyniol nid yw'n llawer o syndod, ac mae'n debyg bod llawer o'r tueddiadau hyn yn bodoli ers tro. Y cwestiwn sy'n codi felly yw beth y gellir ei wneud ynglŷn â'r tueddiadau hyn, oherwydd mae'n amlwg nad yw cyfleoedd mewn addysg drydyddol wedi'u dosbarthu'n gyfartal ar hyn o bryd.

Fel y mae adroddiad yr EPI yn dweud, nid yw nodi 'achos polisi' anghydraddoldeb anghymesur canlyniadau yng Nghymru yn dasg hawdd. Ond dylai brys eu casgliadau o leiaf annog Medr i gymryd y mater o ddifri. Os ydym am fynd i'r afael â'r anghydraddoldebau hyn bydd angen edrych yn onest ar y system yn ei chyfanrwydd, gan gynnwys herio effaith y degawd diwethaf o ddewisiadau cyllidebol caled ar ganlyniadau ar draws y sector ôl-orfodol, a hynny mewn ffordd adeiladol.

Addysg oedolion

Mae llai o siarad am yr ail ddyhead polisi y bydd angen i Medr ei reoli, ond mae yr un mor bwysig. Y dyhead hwn yng ngeiriau'r cyn Weinidog Addysg, Jeremy Miles, yw adeiladu *Cenedl o Ail Gyfle: lle nad yw byth yn rhy hwyr i ddysgu*. Nid ar chwarae bach y mae rhoi uchelgais mor ganmoladwy ar waith. Rydym i gyd yn gyfarwydd â hawl i addysg nes byddwn yn dod yn oedolion, ond nid yw'r hawl honno mor amlwg wrth i ni fynd yn hŷn.

Unwaith eto, mae'r ddeddfwriaeth a sefydlodd Medr yn rhoi cyfeiriad clir i'r sefydliad newydd yn y cyswllt hwn, gan fod dyletswydd i ddysgu gydol oes yn cael lle blaenllaw yn Neddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru). Mae adran 94 o'r ddeddfwriaeth hefyd yn gwneud sicrhau 'cyfleusterau priodol' ar gyfer addysg a hyfforddiant i bersonau cymwys dros 19 oed yn ddyletswydd am y tro cyntaf.

Mae hyn yn swnio fel newid bach iawn, ond yn ymarferol mae'n arwain at ganlyniadau arwyddocaol. Roedd y ddeddfwriaeth flaenorol, Deddf Dysgu a Sgiliau 2000 yn rhoi'r ddyletswydd hon i ddarpariaeth 16-19 yn unig, a oedd yn golygu i bob pwrpas bod darpariaeth amser llawn mewn AB (pobl ifanc 16-19 oed at ei gilydd) yn cael gwell triniaeth pan oedd arian yn dynn o gymharu â darpariaeth ran-amser ac addysg oedolion yn y gymuned (19+). Cadarnheir hyn gan yr ystadegau cyfranogiad sy'n dangos bod niferoedd dysgu seiliedig ar waith ac AB amser llawn wedi bod yn sefydlog at ei gilydd dros y degawd diwethaf, ond bod AB rhan-amser wedi gostwng o tua 110,000 o ddysgwyr yn 2012/13 i bwynt isel o ychydig dros 42,800 yn 2020/21 cyn gwella ychydig yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae patrymau tebyg i'w

gweld mewn dysgu oedolion yn y gymuned â 31,427 o ddysgwyr unigryw yn 2012/13 a phwynt isel o 5,555 yn 2020/21 cyn gwella ychydig. Yn sicr mae'r pandemig wedi cael effaith ar ddifrifoldeb y pwyntiau isel, ond roedd y duedd yn mynd ar i lawr drwy'r degawd ac mae'r adferiad yn ystod y blynyddoedd diwethaf wedi mynd â ni i niferoedd dysgwyr cyn y pandemig, sy'n sylweddol is na'r lefelau ar ddechrau'r degawd diwethaf.

Mae'r newid hwn yn bwysig oherwydd nid yw anghydraddoldeb mynediad ar ôl 19 oed yn cael ei fesur na'i ddeall hanner cymaint. Pan fydd y cohort yn cynnwys y boblogaeth gyfan, mae deall y rhesymau dros ddysgu (neu beidio â dysgu), yr effaith y mae dysgu'n ei gael ar ganlyniadau unigolion a'r profiadau blaenorol sy'n llywio dymuniadau dysgu yn anodd iawn. Gwyddom o'n hymchwil blaenorol ein hunain fod y sbardun ar gyfer dysgu yn aml yn gallu bod yn gymhleth, a'i fod yn amrywio ar draws cefndiroedd economaidd-gymdeithasol a lefelau cyrhaeddiad.

Mae'r Sefydliad Dysgu a Gwaith yn cyhoeddi Arolwg blynyddol o Gyfranogiad Oedolion mewn Dysgu a all ddechrau ateb rhai o'r cwestiynau hyn. Canfu arolwg 2023 fod bron i hanner yr oedolion yn y DU wedi cymryd rhan mewn dysgu o ryw fath (49%), er bod hyn yn is yng Nghymru (41%). Yn ddiddorol iawn, mae'n ymddangos bod cyfranogiad wedi cynyddu'n sylweddol yn Lloegr, ond wedi aros yn gymharol sefydlog yn y gwledydd eraill. Yn unol â'r arolygon blaenorol, mae oedran, gradd gymdeithasol, statws yn y farchnad lafur, a'r oedran y gorffennodd yr ymatebwyr addysg amser llawn i gyd yn arwyddocaol fel rhagfynegyddion cyfranogiad mewn dysgu.

O safbwynt oedran, roedd cyfranogiad yng Nghymru yn is ym mhob cohort oedran, er bod y bwlch yn lleihau wrth i'r cohortau fynd yn hŷn, â'r bylchau

Ffigur 1 – cyfranogiad mewn dysgu yn ôl gradd gymdeithasol
(AB yw'r dosbarth uchaf neu ganol, C1 yw'r dosbarth canol is, C2 yw'r dosbarth gweithiol â sgiliau, DE yw dosbarth gweithiol ac incwm isel)



mwyaf mewn cohortau oedran iau (17-19 oed lle'r oedd y bwlch rhwng Cymru a'r DU yn 15%). Mae dirywiad llawer cliriach mewn cyfranogiad fesul gradd gymdeithasol neu 'ddosbarth' yng Nghymru o'i gymharu â'r DU yn ei chyfanrwydd (gweler ffigur 1).

Yn y bôn, rydych yn llai tebygol o gymryd rhan mewn dysgu oedolion os ydych wedi gadael yr ysgol heb lawer o gymwysterau, os ydych ar gyrion y farchnad lafur neu mewn gwaith sgiliau isel.

Goresgyn rhwystrau dysgu oedolion

Gan droi at rwystrau sy'n atal dysgu, ledled y DU mae dysgwyr yn fwyaf tebygol o nodi pwysau gwaith ac amser (24%), cost dysgu (16%), dim hyder i ddysgu (13%), methu â meddwl am brofion ac arholiadau (12%) neu deimlo eu bod yn rhy hen (12%). Er bod y canrannau wedi cynyddu, nid yw patrwm yr heriau y cyfeiriwyd atynt wedi newid llawer o'i gymharu â'r arolygon blaenorol. Yn ddiddorol iawn, cyfeiriodd cyfran uwch yng Nghymru (14% o'i gymharu â 10% yn y DU drwyddi draw) at anabledd neu afiechyd fel rhwystr sy'n atal dysgu, sy'n dangos y gorgyffwrdd â pholisi iechyd yng nghyswllt canlyniadau dysgu (a chyflogaeth).

Mae troi hyn yn gamau polisi ymarferol y gall Medr geisio eu gweithredu yn her, ond gallai gynnwys sicrhau bod darpariaeth yng Nghymru yn hyblyg er mwyn ystyried pwysau gwaith ac amser, lleihau costau dysgu, yn enwedig i'r rhai sydd mewn graddau cymdeithasol is, a sicrhau bod y dulliau dysgu yn hygyrch, yn enwedig ar lefelau is lle mae hunanhyder mewn dysgu yn is. Yn hollbwysig, mae angen ymdrech wedi'i hystyried er mwyn

codi ymwybyddiaeth a hyrwyddo ymhlith grwpiau sydd dan anfantais, â negeseuon cadarnhaol i fynd i'r afael â phryderon ynglŷn ag ymgysylltu â dysgu ac yn cadarnhau ei fanteision. Byddai hyn hefyd yn bwysig er mwyn helpu Medr i gyflawni ei ddyletswydd i hybu dysgu gydol oes, fel y mae gwaith blaenorol gan Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru wedi dadlau.

Mae'n debyg bod rhwystrau eraill y gall Medr fynd i'r afael â hwy ar wahân i gyfyngiadau'r data yn yr Arolwg o Gyfranogiad Oedolion mewn Dysgu. Mae'n hollbwysig felly, wrth iddo ddatblygu ei gapasiti ei hun, bod Medr yn gallu cynhyrchu sail dystiolaeth gref ar gyfer gwneud penderfyniadau yn ymwneud â chyllid a rheoleiddio er mwyn mynd i'r afael ag anghydraddoldeb cyfleoedd. Rhaid iddo wedyn roi hyn ar waith yn y ffordd y mae'n comisiynu darpariaeth.

Mae gan Lywodraeth Cymru ymrwymiad polisi cryf i ddysgu gydol oes ac uchelgais i greu Cymru sy'n 'genedl o ail gyfle'. Mae adroddiadau Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru ac Ymchwil Data Gweinyddol Cymru yn darparu sylfaen gref ar gyfer dull gweithredu sy'n seiliedig ar dystiolaeth, ac rwy'n gobeithio y bydd Medr yn gweithredu'n rhagweithiol yn gynnar er mwyn symud yr agenda hon yn ei blaen.

Derbyniadau cyd-destunol: ffordd o ehangu cyfranogiad mewn addysg drydyddol yng Nghymru

Vikki Boliver

Mae Vikki Boliver yn Athro Cymdeithaseg ym Mhrifysgol Durham. Mae ei hymchwil yn canolbwyntio ar anghydraddoldebau cymdeithasol o ran mynediad at y prifysgolion mwyaf mawreddog. Mae hi'n arbenigwr blaenllaw ar ddefnyddio data cyd-destunol ar amgylchiadau economaidd-gymdeithasol darpar fyfyrwyr prifysgol i lywio penderfyniadau derbyn mwy teg.

Anghydraddoldeb mewn addysg drydyddol a chyn hynny

Dangosodd adroddiad a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru ac Ymchwil Data Gweinyddol Cymru fod pobl ifanc yng Nghymru sy'n cael prydau ysgol am ddim, hynny yw, pobl ifanc o aelwydydd incwm isel, yn llawer llai tebygol o fynd ymlaen i addysg drydyddol o'u cymharu â chyfoedion nad ydynt yn cael prydau ysgol am ddim - 19% a 43% yn y drefn honno.

Mae'r rhesymau dros hyn yn gymhleth, ond yn uchel ar y rhestr mae lefelau cyrhaeddiad is mewn arholiadau TGAU ar gyfer disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim mewn cymhariaeth â disgyblion nad ydynt yn cael prydau ysgol am ddim. Mae hyn yn ei dro yn effeithio ar gyfraddau astudio Safon Uwch mewn addysg uwchradd (15% o'i gymharu â 31%), ac yn y pen draw ar gael y graddau mewn cymwysterau Safon Uwch, neu gymwysterau eraill yng ngham allweddol 5, sydd eu hangen i fod yn gymwys, heb sôn am fod yn gystadleuol, i gael mynediad i raglenni addysg drydyddol.

Mae maint y bwlch cyrhaeddiad cyn prifysgol i'w weld mewn data o Gronfa Ddata Genedlaethol y Disgyblion, sy'n edrych ar bobl ifanc yng Nghymru a Lloegr ac yn dangos bod y disgybl cyffredin sy'n cael prydau ysgol am ddim yn cael sgôr Cyrhaeddiad 8 TGAU o 36–38, sy'n cyfateb yn fras i raddau C a D ar draws 8 TGAU, o'i gymharu â sgôr o 50–51 ar gyfer disgybl cyffredin nad yw'n cael prydau ysgol am ddim, sy'n cyfateb yn fras i raddau B a C ar draws 8 TGAU. Yn yr un modd, roedd y 10 y cant â'r perfformiad gorau o'r disgyblion a oedd yn cael prydau ysgol am ddim, erbyn eu bod yn 19 oed, wedi cael cymwysterau cam allweddol 5 â phwyntiau yn cyfateb i BCC neu well mewn arholiadau Safon Uwch, o'i gymharu ag AAA neu well ar gyfer

y 10 y cant â'r perfformiad gorau o'r disgyblion nad oeddent yn cael prydau ysgol am ddim.

Tan yn ddiweddar, mae rheoleiddwyr addysg drydyddol a llawer o ddarparwyr hefyd wedi dehongli'r bwlch economaidd-gymdeithasol mewn cyrhaeddiad cyn prifysgol fel adlewyrchiad o wahaniaethau cynhenid mewn gallu academaidd rhwng unigolion a grwpiau cymdeithasol, ac o ganlyniad fel adlewyrchiad o addasrwydd ar gyfer prifysgol. Mae'r dull seiliedig ar ddiffyg o ddehongli cyrhaeddiad cyn prifysgol is pobl ifanc economaidd-gymdeithasol ddifreintiedig wedi cyfyngu'n ddifrifol ar y posibilrwydd cydnabyddedig i ddarparwyr addysg uwch wneud gwelliannau o unrhyw werth i amrywiaeth economaidd-gymdeithasol y myfyrwyr y maent yn eu derbyn. O ganlyniad, er bod miliynau o bunnoedd yn cael eu gwario bob blwyddyn ar ehangu cyfranogiad ac ymyriadau allgymorth ledled y DU, a hynny ers degawdau, ni welwyd llawer o gynnydd wrth geisio amrywio'r boblogaeth israddedigion tan yn ddiweddar, yn enwedig yn y sefydliadau academaidd mwyaf detholus.

Yn unol â'r dull seiliedig ar ddiffyg o ddehongli lefel cyrhaeddiad cyn prifysgol is ymgeiswyr economaidd-gymdeithasol ddifreintiedig, yn draddodiadol mae proses dderbyn deg wedi bod yn cael ei gweld fel un lle mae pob darpar fyfyriwr yn cael ei farnu yn ddiduedd ar sail yr un meini prawf academaidd ymestynnol priodol. Mae'r pwyslais hwn ar drin pawb yn gyfartal, y cyfeirir ato hefyd fel tegwch gweithdrefnol, yn seiliedig ar y gamdybiaeth bod pob unigolyn wedi cael cyfle cyfartal i ddangos ei allu drwy'r system arholiadau ffurfiol, beth bynnag ei amgylchiadau

economaidd-gymdeithasol neu nodweddion eraill a bennwyd (yn hytrach nag a gafwyd). Fodd bynnag, mae cyfle cyfartal go iawn i drosi gallu ac ymdrech yn gyrhaeddiad academaidd yn fwy o fyth nag o realiti mewn cymdeithasau lle mae llawer iawn o anghydraddoldeb economaidd-gymdeithasol.

Yn wir, mae llawer o dystiolaeth bod y bwlch economaidd-gymdeithasol mewn cyrhaeddiad cyn prifysgol yn deillio o anghydraddoldeb strwythurol yn hytrach na diffygion unigolion. Canfu astudiaeth o lwybrau cyrhaeddiad disgyblion ysgol yn Lloegr fod disgyblion o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol breintiedig a oedd yn gyflawnwyr uchel yn 7 oed yn parhau i fod yn gyflawnwyr uwch drwy gydol eu gyrfa addysg, ond bod disgyblion 7 oed o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol difreintiedig a oedd yn gyflawnwyr uchel yn disgyn yn raddol i lawr y dosbarthiad cyrhaeddiad dros gyfnod. Erbyn eu bod yn 16 oed, roedd disgyblion economaidd-gymdeithasol ddifreintiedig a oedd wedi bod yn gyflawnwyr uchel pan oeddent yn 7 oed mewn gwirionedd wedi cael eu goddiweddyd gan eu

cymheiriaid mwy breintiedig yr oedd eu cyrhaeddiad yn ddigon cyffredin pan oeddent yn 7 oed. Nid yw hyn yn syndod. Pam na fyddai pobl ifanc sydd â'r cyfalaf economaidd, diwylliannol a chymdeithasol mwyaf yn ei chael hi'n haws i fodloni gofynion mynediad academaidd prifysgolion na chyfoedion yr un mor abl sy'n gweithio'n galed ond sydd heb gymaint o adnoddau?

Derbyniadau cyd-destunol: ymrwymiad i gyfle teg

Mae cydnabyddiaeth gynyddol o achosion strwythurol y bwlch economaidd-gymdeithasol mewn cyrhaeddiad cyn prifysgol wedi ysgogi newid sydd i'w groesawu ar draws sector addysg drydyddol y DU. Mae sefydliadau'n symud oddi wrth y syniad traddodiadol bod mynediad teg at addysg drydyddol yn golygu derbyn y disgyblion "disgleiriaf a gorau" beth bynnag eu hamgylchiadau economaidd-gymdeithasol.

Mae polisïau derbyn mewn cyd-destun yn fwy *teg*, gan gynnig llai o ofynion mynediad academaidd ar gyfer disgyblion sydd dan anfantais economaidd-gymdeithasol, a chydnabod nad yw cymwysterau ffurfiol yn ffordd niwtral yn gymdeithasol o fesur gallu ac addasrwydd ar gyfer addysg drydyddol.

Yn hytrach, mae mwy a mwy o reoleiddwyr a darparwyr addysg drydyddol yn sylweddoli pwysigrwydd ystyried cyrhaeddiad cyn prifysgol darpar fyfyrwyr yng ngoleuni'r amgylchiadau economaidd-gymdeithasol y cafwyd y canlyniadau ynddynt.

Mae cyflwyno ac ehangu polisïau derbyniadau cyd-destunol sy'n cynnwys gofynion mynediad academaidd is ar gyfer ymgeiswyr economaidd-gymdeithasol ddifreintiedig yn dangos ymrwymiad i gyfle gwirioneddol deg, yn hytrach na chyfle cyfartal ffurfiol yn unig, drwy gydnabod nad yw cymwysterau ffurfiol yn fesurau cymdeithasol niwtral o allu ac addasrwydd ar gyfer addysg drydyddol, ac o ganlyniad bod yn rhaid edrych arnynt yn eu cyd-destun. Mae arferion derbyniadau cyd-destunol yn cydnabod na ellir sicrhau mynediad teg i addysg drydyddol drwy ofyn i bob ymgeisydd fodloni'r un safonau mynediad academaidd uchel beth bynnag ei amgylchiadau. Yn hytrach, mae angen polisïau ac arferion dosbarthol/ailddosbarthol, sydd â'r nod penodol o sicrhau dyraniad mwy cyfartal, a mwy cymdeithasol deg o ganlyniad i hynny, o adnodd gwerthfawr addysg drydyddol.

Mae datblygiadau yn Lloegr yn ddiweddar yn dangos pa mor effeithiol y gall defnydd eang o bolisïau derbyniadau cyd-destunol fod, yn arbennig pan gânt eu mabwysiadu gan y sefydliadau mwy academaidd ddetholus yn draddodiadol, ac yn enwedig os ydynt yn cael eu hategu gan dargedau ehangu cyfranogiad uchelgeisiol wedi'u pennu gan y rheoleiddiwr addysg uwch. Dangosodd astudiaeth yn ddiweddar o Gynlluniau Mynediad a Chyfranogiad (APPs) a gyflwynwyd i'r rheoleiddiwr yn Lloegr, y

Swyddfa Fyfyrwyr, fod y traean uchaf o'r prifysgolion mwyaf academaidd ddetholus yn Lloegr wedi ymrwymo i dargedau ehangu cyfranogiad wedi'u pennu gan y rheoleiddiwr a oedd yn fwy uchelgeisiol nag erioed o'r blaen. Yn wahanol i Gytundebau Canlyniadau a gyflwynwyd yn y blynyddoedd blaenorol i ragflaenydd y Swyddfa Fyfyrwyr, y Swyddfa Mynediad Teg, roedd yr APPs hyn yn cynnwys eglurhadau mwy strwythurol o anghydraddoldebau cymdeithasol-economaidd mewn cyrhaeddiad blaenorol ac yn amlinellu cynlluniau i gyflwyno neu wneud defnydd mwy beiddgar o bolisïau derbyniadau cyd-destunol fel dull allweddol o gyrraedd y targedau newydd. Yn bwysig iawn, roedd yr APPs hyn yn dangos bod darparwyr yn barod i dderbyn mwy o'r cyfrifoldeb am gynorthwyo myfyrwyr economaidd-gymdeithasol ddifreintiedig i lwyddo ar ôl cael eu derbyn i'r sefydliad.

Mae tystiolaeth gynnar yn dangos bod polisïau derbyniadau cyd-destunol wedi cael effaith gadarnhaol iawn ar ehangu cyfranogiad ym mhrifysgolion mwyaf academaidd ddetholus Lloegr. Mae cymhareb y myfyrwyr a dderbynnir i'r sefydliadau hyn o ardaloedd â chyfraddau uchel o gyfranogiad mewn addysg uwch mewn cymhariaeth ag ardaloedd â chyfranogiad isel mewn addysg uwch wedi gostwng o 7.9-i-1 yn 2015 i 5.6-i-1 yn 2021. Nid yw cymhareb y myfyrwyr nad ydynt yn cael prydau ysgol am ddim a'r rhai sydd yn cael prydau ysgol am ddim wedi gostwng mor gyflym, a hynny mae'n debyg gan nad prydau ysgol am ddim yw'r mesur o anfantais economaidd-gymdeithasol sydd wedi bod yn cael blaenoriaeth gan y Swyddfa Fyfyrwyr. Er hyn, mae cymhareb y cyfraddau ar gyfer pobl ifanc nad oeddent yn cael cinio ysgol

am ddim a'r rhai a oedd yn cael cinio ysgol am ddim a dderbyniwyd i brifysgolion mwy detholus yn Lloegr wedi gostwng o 3.8 i 3.1 yn ystod yr un cyfnod.

Cymhwyso derbyniadau cyd-destunol yng Nghymru

Mae'r achos yn Lloegr yn awgrymu'n gryf y gellid sicrhau newid sylweddol tebyg yng nghyswllt ehangu cyfranogiad yng Nghymru drwy ddefnydd mwy beiddgar o bolisïau derbyniadau cyd-destunol, ynghyd â mwy o gefnogaeth i ddysgu myfyrwyr mewn prifysgolion, yn cael ei ategu gan dargedau ar gyfer ehangu cyfranogiad a llwyddiant myfyrwyr yn cael eu gosod a'u monitro gan reoleiddiwr addysg drydyddol Cymru. Mae Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 wedi gosod y fframwaith rheoleiddio er mwyn gwneud hyn yn bosibl yng Nghymru.

Ehangu Cyfranogiad a Gweddnewid Bywydau: Beth sy'n gweithio?

Ellen Hazelkorn

Yr Athro Ellen Hazelkorn oedd awdur adroddiad yn 2016 sydd wedi arwain at sefydlu Medr. Mae hi'n Gyd-olygydd Policy Reviews in Higher Education ac yn Athro Emerita, Prifysgol Dechnolegol Dulyn. Mae hi'n cynghori llywodraeth Iwerddon ar ei pholisi: Datblygu System Trydyddol Unedig ar gyfer Dysgu, Sgiliau a Gwybodaeth, ac mae hefyd yn gweithio ar hyn o bryd gyda Banc y Byd, UNESCO, Banc Buddsoddi Ewrop a sector addysg uwch Portiwgal.

Y broblem enbyd o ehangu cyfranogiad

Er gwaethaf blynyddoedd o strategaethau i ehangu cyfranogiad mewn addysg, mae tystiolaeth yn dangos bod mwy o fylchau anghydraddoldeb a gwahaniaethau yn bodoli mewn cyfleoedd a chanlyniadau addysgol ar draws pob gwlad. Ym mhob gwlad lle mae data ar gael, mae cyfranogiad mewn addysg uwch yn parhau i fod yn anhafal o safbwynt cefndir cymdeithasol.

Yn ôl adroddiad diweddar, 'mae canlyniadau a chyfranogiad mewn addysg yn is ymysg pobl ifanc yng Nghymru' nac yng ngwledydd eraill y DU, ac mae'r bwlch yn y cyfranogiad wedi cynyddu dros y blynyddoedd. Ceir tystiolaeth o hyn gan y gyfran uchel, ac sy'n cynyddu, o bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yng Nghymru ...[a] lefelau isel o gyfranogiad mewn addysg uwch, gyda bechgyn yng Nghymru â'r lefelau isaf o gyfranogiad mewn addysg uwch. Mae modd gweld hyn mewn cyfrannau is o bobl ifanc yn cael Lefel A neu gymwysterau cyfatebol, cymwysterau ar lefel gradd a chanlyniadau is yn y farchnad lafur yng Nghymru.

Ac eto, er mwyn gallu ymateb i'r newidiadau trawsnewidiol parhaus a ddaw yn sgil y trawsnewidiadau digidol a gwyrdd, bydd angen i fwy a mwy o bobl yng Nghymru gael cymhwyster QCFW Lefel 4-6, neu uwch. Mae hyn yn newid sylweddol o'r 41.4% o bobl sydd â chymhwyster o'r fath ar hyn o bryd. Rhaid i Gymru ystyried pa mor barod yw'r system addysg drydyddol i gyflawni'r tasgau a osodwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer creu 'Cymru sy'n Fwy Cyfartal' ac er mwyn 'parhau a dwysáu gwaith o ehangu cyfranogiad a chymryd camau i sicrhau system fwy teg a rhagorol i bawb.'

Ehangu cyfranogiad a gwella canlyniadau

Dylid llongyfarch Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru (WCPP) am dynnu sylw Medr at y broblem enbyd o anghydraddoldeb mewn canlyniadau a chyfleoedd addysgol. Felly, sut bydd y dystiolaeth a'r cynigion a gyflwynir yn *Tegwch mewn Addysg Drydyddol yng Nghymru ac EhanguCyfranogiad mewn Addysg Drydyddol* yn helpu Medr i fynd i'r afael â'r materion hyn?

Mae *Tegwch mewn Addysg Drydyddol yng Nghymru* yn ailgadarnhau llawer o astudiaethau sy'n dangos bod cydberthynas fawr rhwng anghydraddoldeb ar draws cymdeithas a mynediad anhafal at addysg. Mae cydberthynas gref hefyd rhwng mynediad at addysg uwch ac, ymysg pethau eraill, galwedigaeth rhieni ac economaidd-gymdeithasol, hil/ethnigrwydd, anabledd, amddifadedd a rhywedd, ac maent wedi'u gwreiddio'n gadarn/eu hatgyfnerthu gan strwythurau cymdeithasol, gan gynnwys addysg sy'n dechrau o oedran cynnar. I ba raddau y mae addysg bellach ac addysg uwch yn rhan o'r broblem neu'n rhan o'r datrysiad?

Mae *Ehangu Cyfranogiad mewn Addysg Drydyddol* yn cymharu polisïau a'r camau a gymerwyd gan y llywodraethau a sefydliadau Addysg Uwch yn y pedair gwlad yn y DU, a Gweriniaeth Iwerddon. Mae'r tabl isod yn crynhoi'r prif gynlluniau, ac mae'n cynnwys asesiad byr o'u heffeithiolrwydd hyd yma, er bod y cyd-destun bob amser yn bwysig.

Polisi/Camau Gweithredu	Effeithiolrwydd
Cynlluniau ar gyfer Ehangu Cyfranogiad	Addawol – Yn seiliedig ar gyllid perfformiad, ond prin yw'r gwaith gwerthuso sydd wedi'i wneud.
Cymorth ariannol i ddysgwyr	Cymysg – un ffactor cyfyngol yw'r diffyg gwybodaeth am gymorth ariannol, neu fynediad ato.
Cyllid perfformiad ar lefel sefydliad	Gall fod yn effeithiol ar gyfer sefydliadau hŷn, ac yn addawol ar gyfer sefydliadau mwy newydd, ond gallai sefydliadau chwarae gemau
Cyrsiau sylfaen a mynediad, gan gynnwys rhaglenni llwybr	Yn debygol o fod yn effeithiol, ac mae'r dystiolaeth anecdotaidd yn gadarnhaol dros ben
Cytundebau Trosglwyddo	Cymysg – gan y gall atgyfnerthu rhaniadau economaidd-gymdeithasol os nad yw pob sefydliad Addysg Uwch yn cymryd rhan, a gall gyfyngu ar y dewisiadau sydd ar gael i ddysgwyr
Derbyniadau cyd-destunol neu CDB (cydnabod dysgu blaenorol)	Cymharol, gyda photensial da – gan mai dim ond rhai sefydliadau Addysg Uwch sydd wedi mabwysiadu'r dull hwn, a gall dehongliad o brofiadau blaenorol amrywio'n sylweddol ar draws sefydliadau
Allgymorth gan Sefydliadau Addysg Uwch i ysgolion uwchradd	Mae nifer y gweithgareddau ymgysylltu yn cynyddu, ond mae eu heffaith yn amhendant
Ymgyrchoedd ymwybyddiaeth cenedlaethol	Mae ymgyrchoedd cenedlaethol yn ysgafn ac yn rhad i'w cynnal, ac nid ydynt yn cael llawer o effaith ar ddyheadau a chofrestriadau.

Nodwedd amlycaf yr astudiaeth hon yw mai cymysg yw llwyddiant pob polisi wedi bod, yn unigol ac ar y cyd. Mae data gwael a diffyg diffiniadau cytunedig, sy'n arwain at werthuso annigonol, yn broblemau cyffredin ar draws pob awdurdodaeth, sy'n esbonio – ond nid yn esgusodi – methiannau canlyniadol llywodraethau a sefydliadau yma, ac yn rhyngwladol.

Mae'r gwaith o ehangu cynlluniau cyfranogiad yn hanfodol, ond rhaid gosod y cynlluniau o fewn targedau cenedlaethol, eu monitro'n drylwyr a sicrhau bod ganddynt 'ddannedd'. Nid yw'r Cytundebau Mynediad a Ffioedd sydd ar waith yng Nghymru ar hyn o bryd yn fawr mwy na mynegai dyheadau gwan, ac nid oes cymorth ar gyfer methu. Mae pobl yn ddigon parod i feirniadu cyllid perfformiad, ond heb fecanweithiau o'r fath mae sefydliadau addysg uwch yn chwarae gemau. Bydd defnyddio diffiniadau cyson o dermau allweddol fel 'cyfle cyfartal' ar draws Medr yn helpu i osod targedau heriol ac uchelgeisiol.

Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar ehangu cyfranogiad, gan ganolbwyntio'n bennaf ar sicrhau bod mwy o bobl yn mynd i addysg uwch/prifysgol, ac nid yw'n rhoi digon o sylw i gyfleoedd addysg drydyddol amgen nac ar yr hyn y mae sefydliadau'n ei wneud i gefnogi llwyddiant dysgwyr ar ôl iddynt gyrraedd yno. Diystyr yw cofrestru dysgwyr heb roi digon o sylw i'w canlyniadau, eu cynnydd, eu cyflawniadau a'u cyflogadwyedd. Mae'n annog amgylchedd lle mae dysgwyr yn agored i ymddygiad rheibus prifysgolion sydd â gwell adnoddau, ac mae'n tynnu'r pwysau oddi ar sefydliadau i sicrhau bod yr holl gymorth angenrheidiol ar gael i'r dysgwyr. Mae'r system gyllido, wrth gwrs, yn arwain at weithredoedd o'r fath.

Mae cytundebau trosglwyddo, ynghyd â llwybrau addysgol rhwng sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch, wedi dod yn ddull mwyfwy cyffredin o ehangu cyfranogiad, ac mae yna amrywiadau ar y model i'w gweld yn rhyngwladol. Gall ffurfioli llwybrau dysgu ar lefel genedlaethol ddarparu dull gweithredu cydlynol ar lefel system sy'n mynd ymhell y tu hwnt i gytundebau tosglwyddo dwyochrog rhwng sefydliadau addysg bellach a sefydliadau addysg uwch. Maent yn galluogi dysgwyr i gofrestru mewn sefydliadau sy'n nes at eu cartrefi – sydd fel arfer â dulliau cyflwyno mwy hyblyg sy'n gydnaws â threfniadau personol a threfniadau gweithio gwahanol.

Ond mae'r broblem o orbwysleisio addysg uwch academaidd fel yr unig lwybr tuag at lwyddiant yn atgyfnerthu system fertigol â haenau. Daw hyn er gwaethaf y rhybuddion gan Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd ac eraill mai nad cymhwyster prifysgol yn unig yw gradd drydyddol; mae angen cymwysterau galwedigaethol/technegol uwch ar bobl yn fwy nag erioed. Yn ogystal, mae rhaglenni mynediad a sylfaen yn agor y potensial y bydd yr academaidd yn coloneiddio'r llwybr addysg alwedigaethol ac addysg bellach yn fwy fyth; gall hefyd fod yn llawer drutach.

> **Rhaid i'r sector Addysg Bellach fod yn ddewis cyfwerth, nid yn ail ddewis, i'r rhai nad ydynt yn gallu, neu nad ydynt yn dymuno, mynd i brifysgol. Rhaid i AB ac AU fod yn bartneriaid cydradd go iawn yn hytrach nag yn rhan o system hierarchaidd a haenedig. Yn hollbwysig, mae'n rhaid i Medr chwalu ei seilos ei hun rhwng addysg AB ac AU, ac ymestyn dros ffiniau.**

Rhaid i'r sector Addysg Bellach fod yn ddewis cyfwerth, ac nid yn ail ddewis i'r rhai nad ydynt yn gallu, neu nad ydynt yn dymuno, mynd i brifysgol. Yn ogystal, dylai Medr – o ystyried ei gylch gwaith ar gyfer ymchwil ac arloesi – gydnabod y rôl hanfodol y mae addysg bellach yn ei chwarae yn y system arloesi, a hynny o ran lledaenu gwybodaeth a chynyddu'r capasiti cynhyrchiol ac amsugnol cyffredinol yn y sector uwch-dechnoleg, a'r sector technoleg isel.

Ni roddwyd digon o sylw ychwaith i ddysgwyr sy'n oedolion. O ystyried y gyfran uchel iawn o bobl rhwng 18 a 24 oed sydd yn y gweithlu llafur yng Nghymru, ac sydd wedi cymhwyso hyd at Lefel 3, mae'n debygol y byddant yn dal i weithio erbyn 2050 a'r tu hwnt. Mae hefyd yn debygol y bydd nifer y bobl dros 60 oed sy'n gweithio yn parhau i gynyddu o ganlyniad i'r newidiadau yn yr oedran ymddeol. Mae gan hyn oblygiadau enfawr o ran cyfansoddiad ac amrywiaeth y garfan o ddysgwyr – ac o ran yr angen i uwchsgilio, ailsgilio ac ail-bwrpasu cymwysterau i bawb. Mae angen inni ail-ystyried pob dysgwr fel dysgwyr gydol oes.

Dyma agenda ehangu cyfranogiad y dyfodol – ac mae angen gwneud newidiadau ar unwaith. Mae'r galw annigonol am y cynllun Lifetime Learning Entitlement (LLE) yn Lloegr yn dangos mai ychydig iawn y bydd cymhellion ariannol yn ei wneud i fynd i'r afael â rhwystrau cymdeithasol ac addysgol i gyfranogiad heb hyrwyddo dulliau hyblyg ac arloesol o ddysgu ac asesu, cael gwared â'r rhwystrau rhwng addysg rhan-amser ac amser llawn, cyflwyno cyfleoedd addysgol newydd, ac ati.

Mae hyn yn ymwneud â galwad yr adroddiad am ragor o wybodaeth am yr hyn sydd ar gael, gan gynnwys cymorth ariannol. Mae bylchau mewn gwybodaeth yn cyfrannu'n sylweddol at anghydraddoldebau. I fedru goresgyn y ffordd y mae'r elît wedi cipio'r system addysg mae angen gwneud mwy na dim ond dangos y ffordd. Mae anghydraddoldeb yn dechrau'n llawer cynharach yn y system addysg. Mae datblygiad personol a mynediad at addysg, hyfforddiant

a gyrfaoedd da yn dechrau yn yr ysgol feithrin. Ffactor arall yw sefyllfa flaenllaw dosbarthiadau chweched dosbarth ac astudiaeth Lefel A fel llwybrau i mewn i addysg uwch – sef, i ba raddau y mae'r system 'uwchradd' yn atgyfnerthu anghydraddoldebau drwy 'lwybro' myfyrwyr. Yn ogystal ag ystyried a ddylid codi'r oedran addysg gorfodol i 18 oed, dylid rhoi mwy o bwyslais ar sicrhau bod pob dysgwr yn caffael sgiliau gwybyddol, cyfathrebu a rhyngbersonol o safon uwch, dulliau datrys problemau cymhleth, creadigrwydd, rhuglder syniadau a dysgu gweithredol ochr yn ochr â gwybodaeth arbenigol sy'n angenrheidiol ar gyfer bywyd a gwaith i'r dyfodol. Nid problemau Medr yw'r rhain, ond maent yn effeithio ar gyfrifoldebau Medr.

Er mwyn cyflawni nod Llywodraeth Cymru o greu 'system drydyddol fwy hyblyg sy'n rhoi'r dysgwyr wrth wraidd y system, ac sy'n rhoi sylw i addysg bellach ac uwch fel ei gilydd', mae angen grymuso dysgwyr i weithredu – gan ddarparu map addysgol i alluogi dysgwyr o bob cefndir a gallu i addasu eu llwybr tuag at yrfa o'u dewis, i mewn i gyflogaeth, ac yn ôl i'r system pan fydd yr amser yn iawn. Adnodd hanfodol yw hwn, ac nid rhywbeth sy'n braf i'w gael.

Gwersi ar gyfer y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Medr)

Mae Medr yn sefyll ar drothwy hanes. Mae llawer o lywodraethau'n ailystyried eu systemau trydyddol, ond mae Medr yn barod – ac mae'r byd yn gwylio.

Mae Medr yn gam pwysig ymlaen, ond nid yw'n ddigonol ynddo'i hun. Mae llawer o fanteision o gael un asiantaeth; mae'n siop-un-stop i bawb gael sgwrsio a chanolbwyntio ar lwyddiant a gyrfaoedd dysgwyr.

Ond rhaid i'r Medr fynd ymhellach. Mae'n rhaid iddo ddeall y cysyniad o'r trydyddol fel cyfle i ailfeddwl sut y mae addysg, hyfforddiant ac arloesedd yn gweithio i gymdeithas a'r economi yng Nghymru, a'r rhai sy'n debygol o fanteisio ar ei holl wasanaethau a chyfleusterau drwy gydol eu hoes dros y degawdau nesaf. Yn hytrach na bod yn rhan o system hierarchaidd a haenedig, mae'n rhaid i addysg bellach ac addysg uwch fod yn gyfartal â'i gilydd; mae gan hyn oblygiadau o ran cyllid, ac ni ellir caniatáu iddo ddatblygu i fod yn frwydr mewn sefyllfa ariannol dynn. Yn hytrach, dylent fod yn gyson yn strategol ag amcanion cyffredinol y system. Yn hanfodol, mae'n rhaid i'r Medr chwalu ei seilos ei hun rhwng addysg bellach ac addysg uwch, ac ymestyn dros ffiniau.

Yn olaf, mae arweinyddiaeth a chydlyniad strategol cryf gan Medr yn hanfodol. Mae ganddo'r cyfrifoldebau statudol i sicrhau bod y system yn bodloni'r amcanion polisi i ehangu cyfranogiad a gwella canlyniadau pob dysgwr, ni waeth sut maent yn ymuno â'r system.

Gwybodaeth am Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

Yma yn y Ganolfan, rydym yn cydweithio ag arbenigwyr polisi blaenllaw i roi cyngor annibynnol a thystiolaeth o ansawdd da i weinidogion, y gwasanaeth sifil a gwasanaethau cyhoeddus Cymru, i'w helpu i wella penderfyniadau a chanlyniadau polisi.

Mae'r Ganolfan yn cael ei hariannu gan y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol, Llywodraeth Cymru a Phrifysgol Caerdydd. Mae wedi'i lleoli ym Mhrifysgol Caerdydd ac mae'n aelod o Rwydwaith What Works y DU.

Tegwch ym Maes Addysg Drydyddol yng Nghymru

Cliciwch yma i ddarllen yr adroddiadau i gyd
www.wcpp.org.uk/publication/ete

Wales Centre for Public Policy
Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

Cardiff University, sbarc | spark, Maindy Road, Cardiff CF24 4HQ

www.wcpp.org.uk
info@wcpp.org.uk
029 2087 5345
@WCfPP
/company/wcfpp

Economic and Social Research Council
Llywodraeth Cymru Welsh Government
Cardiff University Prifysgol Caerdydd